



Ysgol Pentreuchaf

53. Polisi Darparu ar gyfer Disgyblion gydag Anghenion Meddygol

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â disgyblion sydd yn dioddef o gyflyrau meddygol, fyddai, os nad yn derbyn sylw arbennig, yn cyfyngu ar eu mynediad i addysg.

2. Cyd-destun

2.1 Mae mwyafrif y disgyblion sydd ag anghenion meddygol yn gallu mynychu ysgol, a gydag ychydig o gymorth, cael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gweithgareddau cysylltiedig. Yn dibynnu ar y cyflwr meddygol fodd bynnag, hwyrach bydd angen i staff sicrhau nad yw'r disgybl mewn peryg.

2.2 Mae peryg i ddisgyblion â chyflyrau meddygol tymor hir neu sydd yn absennol am gyfnod maith, gael trafferthion i sicrhau rhediad di-dor yn eu haddysg, ac oherwydd hynny, cael eu colli yn y system.

2.3 Mae'r polisi'n cyfeirio at ddisgyblion sâl eu hiechyd, wedi'u hanafu neu sy'n dioddef o salwch meddwl.

2.4 Sicrhau bod darpariaeth digonol a phriodol i ddisgyblion sydd â salwch meddwl neu iselder ysbryd.

3. Datganiad o fwriad

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i annog a chefnogi disgyblion sydd gydag anghenion meddygol arbennig.

4. Fframwaith Statudol

4.1 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch 1981 4.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch 1992 4.4 Deddf Addysg 1996

5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Er mwyn adnabod a chefnogi disgyblion sydd gydag anghenion meddygol arbennig, dylai ysgol sefydlu strategaethau i gefnogi disgybl sydd yn ceisio mynychu'r ysgol er gwaethaf ei gyflwr, mewn ymgynghoriad â rhieni ac asiantaethau eraill.

6. Amcanion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd

6.1 Yn unol a'r gofyn cyfreithiol, bydd y Gwasanaeth ysgolion yn darparu addysg i ddisgyblion sydd oherwydd eu salwch yn methu mynychu ysgol. I'r disgyblion sydd yn gleifion yn Ysbyty Gwynedd, gwneir darpariaeth yn yr Uned Addysgol sydd yno.

6.2 Mae Gwasanaeth Ysgolion wedi paratoi ffeil Anghenion Meddygol mewn Ysgolion ac mae copïau ym mhob ysgol. Ceir ynddi wybodaeth, arweiniad ac enghreifftiau o bolisïau ynglŷn â:

Rheolaeth Meddyginiaethau mewn Ysgolion / Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol / Cymorth Cyntaf/ Cynllunio ar gyfer Argyfyngau / Caniatâd / Adran ar gyflyrau gwahanol DISGWYLIR I YSGOLION YMGYNEFINO Â'R FFEIL

6.3 Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi indemniad llwyr i'w staff rhag cyhuddiadau o esgeulustod honedig, cyn belled a'u bod wedi gweithredu o fewn terfynau eu cyflogaeth, wedi derbyn hyfforddiant addas, ac yn dilyn canllawiau'r Awdurdod. At bwrpas yr indemniad, mae rhoi moddion yn syrthio i'r diffiniad hwn ac, felly, gellir sicrhau staff ynglŷn a'r amddiffyniad y mae eu cyflogwyr yn ei ddarparu.

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Sicrhau bod y Ffeil ddarparwyd gan yr AALL ar gael, a hyfforddiant briodol wedi'i ddarparu i athrawon.

7.2 Sicrhau bod gofynion y Ffeil e.e. dewis staff ar gyfer rhoi cymorth cyntaf yn cael eu gweithredu

8. Arfer dda i Benaethiaid Ysgolion

8.1 Sicrhau bod Ffeil Anghenion Meddygol mewn Ysgolion ar gael yn hwylus a bod cynnwys y ffeil yn wybyddus i'r Tîm Rheoli a'r elfennau perthnasol i'r holl staff.

8.2 Sicrhau bod gofynion y Ffeil e.e. a) gofynion cymorth cyntaf ,b) canllawiau a gweithdrefnau rhoi meddyginiaeth, yn cael eu gweithredu.

8.3 Dynodi aelod o'r Tîm Rheoli i fod yn gyfrifol am sicrhau yr hyfforddiant priodol i staff, a bod gofynion y Ffeil yn weithredol yn yr ysgol.

8.4 Os oes disgybl yn dioddef o gyflwr penodol, sydd angen triniaeth frys neu arbennig, ar gofrestr ysgol, dylid sicrhau bod hyfforddiant priodol wedi'i ddarparu i'r holl staff. Yn ddelfrydol dylai'r hyfforddiant ddigwydd cyn i'r plentyn gyrraedd yr ysgol neu yn sicr yn fuan wedyn.

8.5 Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol na chytundebol ar athrawon i ddarparu na goruchwyllo rhoi meddyginiaeth na chefnogi anghenion meddygol plentyn. Mae unrhyw ran a gymerir yn gwbl wirfoddol. Yr angen gwirioneddol yw i athrawon deimlo wedi'u cefnogi'n llwyr a'u hamddiffyn rhag risg. Nid yw bob amser yr un fath i staff ategol, gan y gallai eu cytundeb hwy nodi'r union fath o gefnogaeth.

8.6 Os nad yw disgybl yn abl i fynychu yn rheolaidd, gall ysgol:

i) Ganiatáu i ddisgyblion ddechrau ysgol yn hwyrach a gorffen yn gynharach

ii) Ddarparu addysg rhan amser

iii) Ddarparu "lle diogel" ar gyfer disgyblion lle byddai'n amhriodol iddynt fod yng nghanol bwrlwm gweithgareddau amser egwyl a chinio

iv) Ddarparu cymorth ychwanegol yn y dosbarth

v) Sicrhau systemau "cyfeillio" –cymorth yn yr ysgol gan ddisgybl a enwir ac ail-integreiddio graddol - yn cynnwys llunio amserlenni rhan-amser wedi' eu haddasu ar gyfer yr unigolyn

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____